# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl The Nash**

**Cartref Preswyl The Nash**
**10-12**
**Churton Road**
**Y Rhyl**
**LL18 3NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Preswyl The Nash

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | NASH CORPORATE SERVICES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sy'n eu deall ac yn diwallu eu hanghenion. Dywedodd y gweithwyr gofal a'r preswylwyr wrthym eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae cynlluniau personol manwl yn hysbysu'r staff am y cymorth sydd ei angen ar y bobl a'r cymorth yr hoffent ei gael ganddynt. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r staff yn sicrhau bod eu nodau yn cael eu cyflawni. Mae'r tîm rheoli a'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol â'r bobl.

Mae'r staff yn mwynhau gweithio yng nghartref The Nash. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a'u bod yn gallu dysgu a datblygu yn eu rolau. Mae'r staff yn cadarnhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan y rheolwyr sydd ar gael yn rheolaidd ac yn bresennol yn y cartref.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud newidiadau, pan fo angen, i wella'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r uwch-reolwyr yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth, gan edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae buddsoddiad wedi cael ei wneud yn y cartref.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am yr hyn y maent am ei wneud bob dydd. Gwrandewir ar y bobl a chaiff eu barn a'u hawliau eu parchu. Mae gan y preswylwyr eu cynrychiolydd gweithgareddau eu hunain sy'n sicrhau bod safbwyntiau'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref yn cael eu clywed gan y rheolwyr, mewn perthynas â'r hyn y mae'r bobl eisiau ei wneud yn ystod y dydd.

Caiff anghenion corfforol, anghenion iechyd meddwl ac anghenion llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Mae gwasanaethau gofal iechyd ar gael i'r bobl a chaiff apwyntiadau, atgyfeiriadau a chyfarfodydd eu cynnal â gweithwyr proffesiynol yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae asesiadau risg ar waith sy'n cynnwys dulliau a strategaethau er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw faterion neu bryderon. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith iddynt eu dilyn. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac y gallant ymddiried ynddynt. Caiff ffurflenni digwyddiadau a damweiniau eu cwblhau yn ôl yr angen a dywedodd y rheolwr wrthym fod y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael gwybod amdanynt. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym *“Staff are open and transparent and let us know of any issues”* gyda'r bobl, a *“The care is good.”*

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn annog annibyniaeth. Caiff eu hystafelloedd eu personoli a chânt gymorth i'w cadw'n lân ac yn daclus. Mae gwelliannau yn cael eu gwneud i'r cartref drwy waith ailaddurno.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol cywir, manwl a chyfredol. Mae'r cynlluniau a'r wybodaeth berthnasol arall yn fanwl ac yn rhoi gwybod i'r staff gofal sut y gallant gefnogi'r bobl yn y ffordd orau. Mae'r cynlluniau yn cynnwys dewisiadau'r bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau, yn ogystal â rhai arferion penodol y mae angen i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad. Gwnaethom siarad â'r gweithwyr gofal a wnaeth gadarnhau hyn hefyd. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod gofal a chymorth yn cael eu cynnig yn unol â chynlluniau'r bobl.  Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, a chaiff unrhyw newidiadau eu cyfleu i'r staff yn ddi-oed.

Darperir gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl; ymgynghorir â nhw a chaiff eu dymuniadau personol ac unrhyw risgiau eu hystyried. Dywedodd un preswylydd *“Staff are patient and gentle with me…when supporting me they know what they are doing…staff are brilliant.”* Dywedodd preswylydd arall wrthym *“Its excellent here…staff support me at my own speed and explain what they are doing.”* Ar hyn o bryd, mae'r cartref yn hysbysebu am gydgysylltydd gweithgareddau; fodd bynnag, mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael, ac mae'r preswylwyr yn dewis cynrychiolydd i drefnu gweithgareddau bob dydd. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig, fel cantorion a thelynorion yn dod i'r cartref yn rheolaidd, ac mae cartref The Nash yn rhan o dwrnamaint dartiau â chartrefi eraill. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod digon yn digwydd. Mae asesiadau, dulliau gweithredu a strategaethau ar gael i'r staff gefnogi'r bobl yn briodol ac i leihau unrhyw risgiau. Ar hyn o bryd, mae'r cartref yn rhan o dreial sy'n cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd er mwyn helpu i gyflymu'r ddarpariaeth gofal brys pan fydd yn rhaid i'r cartref alw 999.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gweithwyr proffesiynol perthnasol ac unrhyw gyngor neu gyfarwyddiadau i'r staff eu dilyn. Caiff yr holl atgyfeiriadau, apwyntiadau a gohebiaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd y bobl eu cofnodi, sy'n rhoi cofnod clir o unrhyw gamau gweithredu a phenderfyniadau a wnaed. Mae sylwadau gan un gweithiwr proffesiynol yn cynnwys *“It's a lovely home which provides good care…staff are open and transparent and follow instruction well.”* Mae'r bobl yn cyflawni eu nodau mewn perthynas â'u hiechyd, er enghraifft gofalu am friwiau pwyso.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae'r staff domestig yn sicrhau bod y cartref yn lân. Cynhelir archwiliadau rheoli heintiau i nodi unrhyw faterion ac i ymdrin â nhw. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau, ac mae polisi ar waith i roi arweiniad iddynt.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n darparu amgylchedd addas ar eu cyfer. Caiff ystafelloedd gwely eu personoli, ac maent yn cynnwys eiddo personol y bobl ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Gall y bobl dreulio amser tawel ar eu pen eu hunain neu gydag unigolion eraill sy'n byw yn y cartref a'r staff, naill ai yn y lolfa neu'r ardal fwyta, a chânt ddewis ble yr hoffent fwyta eu prydau. Mae pob rhan o'r cartref yn lân. Gwnaed gwelliannau ym mhob rhan o'r cartref ac mae gwaith ailaddurno yn mynd rhagddo.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae systemau ar waith i fonitro a chynnal gwiriadau o'r amgylchedd a'i gadw'n ddiogel. Caiff archwiliadau eu cwblhau i nodi unrhyw faterion ac i ymdrin â nhw. Mae cynllun cynnal a chadw ar waith sy'n dangos pa waith a wnaed eisoes a'r hyn sydd angen ei wneud o hyd. Caiff gwiriadau tân eu cwblhau a'u cofnodi ac mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cynhwysfawr ar waith sy'n helpu'r gwasanaeth i weithredu'n ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â chartref The Nash yn rheolaidd. Clywsom ei fod yn aros yn y cartref yn aml a gwelsom hynny hefyd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiad manwl o'r gwasanaeth bob tri mis fel sy'n ofynnol gan edrych o gwmpas y gwasanaeth, edrych ar gofnodion a siarad â'r bobl a'r staff. Mae hefyd yn cwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis sy'n ystyried beth sy'n gweithio'n dda ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Caiff amrywiaeth eang o archwiliadau eu cynnal hefyd er mwyn nodi unrhyw faterion/diffygion. Mae'n amlwg o'r arsylwadau a'r hyn a glywsom fod y rheolwr a'r uwch-reolwyr yn adnabod y gwasanaeth a'r bobl yn dda iawn. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i wella'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn canmol y rheolwr a'r staff gofal yn fawr, gan ddweud *“Have a good relationship with staff, and staff and resident relationships are also good… staff are open and transparent and let them know of any issues.”* Dywedodd un preswylydd wrthym *“Managers and staff are brilliant; I think of them as friends.”* Caiff diwylliant cadarnhaol ei hybu â pholisi drws agored. Mae'r tîm rheoli yn arwain drwy esiampl a chaiff gwersi eu dysgu er mwyn sicrhau bod arferion diogel ar waith a bod mwy o gymorth ar gael i'r staff. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *“I like it here; this is the best management support I have had. Managers are very helpful.”* A dywedodd un arall, *“Managers are approachable and take issues seriously.”*

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n cael eu goruchwylio yn eu rolau. Mae'r prosesau recriwtio yn gadarn, a chaiff y dogfennau recriwtio perthnasol eu casglu, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae'r holl staff wedi cofrestru â'r corff proffesiynol priodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yng nghartref The Nash. Mae sylwadau yn cynnwys *“It's a good staff team…there is good communication.”* Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarnu a gynhelir yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant i ymgymryd â'u rolau, a chafodd hyn ei gadarnhau gan y dogfennau a welsom. Roedd y sylwadau'n cynnwys *“We get loads of training.”* Dywedodd y bobl wrthym hefyd, *“I am very happy with the care and support I get.”* a *“Staff know what they are doing when they support me.”*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/09/2024